# Tŷ Agored

Y Cylchgrawn ar gyfer **Tenantiaid a Lesddeiliaid y Cyngor** Rhifyn 2 2025





**Dod ynghyd yn ein Cynlluniau Byw'n Annibynnol - gweler tudalen 9**





Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

# Y tu **mewn**

Ffocws ar... y Gwasanaethau Landlordiaid a Thai Cymunedol .. 1
Cystadleuaeth Arddio 2025 ...... 2
Mesuryddion Deallus ................ 3
Diweddariad Adfywio Tudno Place a Heol Emrys .................... 4
Adrodd am dwyll a seiberdroseddu wrth Action Fraud .........................................5
Sgwteri symudedd - arweiniad i denantiaid ................................5
Diogelwch dŵr yn yr haf ............ 6
Cymunedau am Waith a Mwy .. 7
Lleisiau Tenantiaid ...................... 8
Dulliau talu rhent ........................ 9
Newyddion Byw'n Annibynnol .. 9

**Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn fformat arall e.e. print bras, Braille, disg neu ddull arall, cysylltwch â'r Gwasanaethau Cwsmeriaid Tai ☎ 01792 635045 neu ewch i'n gwefan www.abertawe.gov.uk/tai neu e-bostiwch ✉ tai@abertawe.gov.uk**

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.

## Eich sylwadau am gylchgrawn Tŷ Agored:

Oes gennych unrhyw sylwadau am y rhifyn hwn o gylchgrawn Tŷ Agored neu am unrhyw un o'r erthyglau yr ydych wedi'u darllen?

Os felly, gallwch ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol: Dinas a Sir Abertawe, Adran Tai, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE neu e-bostiwch ✉ **tai@abertawe.gov.uk** neu ffoniwch ☎ **01792 635045**.

**Diolch am eich amser.**
Rhowch wybod i ni a ydych yn hapus i ni gyhoeddi eich sylwadau yng nghylchgrawn Tŷ Agored.

# Croeso i **Dŷ** Agored

Croeso i rifyn diweddaraf Tŷ Agored. Yn y rhifyn hwn rydym yn cynnwys erthygl am y Gwasanaethau Landlordiaid a Thai Cymunedol y mae eu timau'n darparu llawer o'r gwasanaethau rydych chi, ein tenantiaid, yn eu defnyddio bob dydd.

Rydym hefyd yn lansio cystadleuaeth arddio 2025 i denantiaid a lesddeiliaid - rydym wir yn mwynhau gweld lluniau o'ch gerddi gwych. Gweler tudalen 2 am sut i gymryd rhan.

Gall mesuryddion deallus eich helpu i gadw golwg ar eich costau ynni a rheoli eich defnydd o ynni - mae gwybodaeth ar gael ar dudalen 3 os hoffech wybod mwy am hyn.

Mae gennym ddiweddariad ar y cynlluniau i ailddatblygu Tudno Place a Heol Emrys ar dudalen 4.

Gan fod yr haf wedi cyrraedd, a diwrnodau cynhesach gobeithio, mae gwybodaeth a chyngor defnyddiol ynghylch diogelwch dŵr ar dudalen 6.

Fel bob amser, os oes gennych unrhyw adborth ar erthyglau neu ar yr hyn yr hoffech chi ei weld mewn rhifyn yn y dyfodol, hoffem glywed gennych.

Nicola Jackson, Golygydd

# **Cysylltiadau** Defnyddiol

| | |
|---|---|
| Golygydd - Nicola Jackson | ☎ **635045** |
| Canolfan Gyswllt Atgyweiriadau | ☎ **635100** |
| Atgyweiriadau Brys y tu allan i Oriau Swyddfa | ☎ **521500** |
| Uned Cefnogi Cymdogaethau 24 awr | ☎ **648507** |
| Opsiynau Tai | ☎ **533100** |
| Canolfan Gyswllt yr Amgylchedd | ☎ **635600** |
| Ymholiadau Budd-dal Tai | ☎ **635353** |

**Swyddfa Dai'r Ardal Ganolog**
*Mae'r ARDAL GANOLOG yn cwmpasu ardaloedd tai Townhill a chanol y ddinas ac mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Townhill.*
✉ **swyddfadai.ardalganolog@abertawe.gov.uk**
☎ **01792 513900**

**Swyddfa Dai Ardal y Dwyrain**
*Mae ARDAL Y DWYRAIN yn cwmpasu ardaloedd tai Eastside a Treforys ac mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Treforys.*
✉ **swyddfadai.ardalydwyrain@abertawe.gov.uk**
☎ **01792 601720**

**Swyddfa Dai Ardal y Gogledd**
*Mae ARDAL Y GOGLEDD yn cwmpasu ardaloedd tai Blaen-y-maes a Phen-lan ac mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn Swyddfa Dai Blaen-y-maes.*
✉ **swyddfadai.ardalygogledd@abertawe.gov.uk**
☎ **01792 534060**

**Swyddfa Dai Ardal y Gorllewin**
*Mae ARDAL Y GORLLEWIN yn cwmpasu ardaloedd tai Gorseinon, West Cross a Sgeti ac mae'r gwasanaeth wedi'i leoli yn Hwb Llyfrgell Gorseinon a Swyddfa Dai Sgeti.*
✉ **swyddfadai.ardalygorllewin@abertawe.gov.uk**
☎ **01792 897700**

# Ffocws ar...




## Y Gwasanaethau Landlordiaid a Thai Cymunedol

**Mae timau'r Gwasanaethau Landlordiaid a Thai Cymunedol yn darparu llawer o'r swyddogaethau y mae ein tenantiaid yn eu defnyddio bob dydd. Mae'r gwasanaeth yn rheoli 13,806 o gartrefi sy'n eiddo i'r cyngor yn bennaf. Mae'r rhain yn cynnwys tai, fflatiau a llety byw'n annibynnol (lloches), ond mae hefyd yn darparu nifer o wasanaethau cymorth i reoli'r stadau o dai ac i gynorthwyo tenantiaid gyda'u tenantiaethau.**

Mae pedwar tîm tai ardal lleol yn darparu gwasanaethau i denantiaid yn yr ardal. Mae'r timau'n cynnwys ein Swyddogion Cymdogaeth a'n hymgynghorwyr tai. Eu rôl yw rheoli eich tenantiaethau a'r stad rydych yn byw arni. Mae'r timau eraill sy'n cefnogi'r gwaith hwn yn cynnwys -

Y **Tîm Rhenti**, sy'n ymdrin â chasglu rhent, adennill ôl-ddyledion a'ch cefnogi gydag unrhyw agwedd ar eich rhent.

Yr **Uned Cefnogi Cymdogaethau**, sy'n darparu presenoldeb landlord 24/7 ar ein stadau, a'r **Tîm Cyswllt â'r Gymuned**, sy'n cefnogi'r rhai y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio arnynt.

Y **Gwasanaeth Gofal Stadau** sy'n sicrhau bod stadau tai'r cyngor yn amgylcheddau glân, diogel a dymunol y mae pobl eisiau byw ynddynt.

**Tenantiaethau wedi'u dodrefnu** sy'n gallu darparu celfi i denantiaid newydd.

**Cynlluniau Byw'n Annibynnol (lloches)**, sy'n darparu llety diogel i denantiaid dros 60 oed i'w galluogi i barhau i fod yn annibynnol, yn ogystal â budd ychwanegol warden.

**Uned Cefnogi Tenantiaid** sy'n darparu cyngor a chymorth sy'n gysylltiedig â thai i'ch helpu i reoli eich tenantiaeth.

**Opsiynau Tai** sy'n darparu cyngor cyffredinol ar dai ac yn asesu ceisiadau am dai a throsglwyddiadau. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn ymdrin ag atal digartrefedd a rheoli llety dros dro.

Y **Tîm Mudo, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid** sy'n cefnogi amrywiol gynlluniau adsefydlu ffoaduriaid.

Yr **Uned Paratoi Cartrefi** sy'n gyfrifol am reoli'r gwaith o baratoi eiddo gwag y cyngor i'w osod.

Y gwasanaeth **Cyfranogiad ac Ymgysylltu ar gyfer Tenantiaid**, sy'n goruchwylio helpu ein tenantiaid i ddweud eu dweud a chymryd rhan yn y gwaith o lunio ein gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

## Eich Swyddfa Dai Leol

Mae pob swyddfa dai ardal yn gyfrifol am wahanol rannau o'r ddinas:

**Swyddfa Dai'r Ardal Ganolog**
- Yn cwmpasu: **Townhill** a **chanol y ddinas**
- Lleoliad: **Townhill**

**Swyddfa Dai Ardal y Dwyrain**
- Yn cwmpasu: **Eastside** a **Threforys**
- Lleoliad: **Treforys**

**Swyddfa Dai Ardal y Gogledd**
- Yn cwmpasu: **Blaen-y-maes** a **Phen-lan**
- Lleoliad: **Blaen-y-maes**

**Swyddfa Dai Ardal y Gorllewin**
- Yn cwmpasu: **Gorseinon**, **West Cross** a **Sgeti**
- Lleoliadau: **Hwb Llyfrgell Gorseinon** a **Sgeti**

**Mae manylion cyswllt y swyddfeydd tai ardal y tu mewn i glawr y llyfryn Tŷ Agored.**

Bydd rhifynnau o Dŷ Agored yn y dyfodol yn canolbwyntio ar wahanol agweddau ar y gwasanaeth i ddod â mwy o wybodaeth amdanynt i chi.

***MAE'R HOLL WYBODAETH YNG NGHYLCHGRAWN TŶ AGORED YN GYWIR WRTH FYND I'R WASG.***

# Cystadleuaeth Arddio 2025

## Rydym yn falch o gyhoeddi mai dyma'r 26ain flwyddyn yr ydym wedi cynnal y gystadleuaeth hon!

### Unwaith eto, gofynnwn i chi anfon lluniau o'ch gerddi hyfryd atom

Rydym am i chi ddangos eich gwaith caled a faint o amser ac ymdrech a neilltuwyd gennych i'ch gardd. Anfonwch ychydig o luniau atom o wahanol onglau fel y gallwn weld eich gardd yn ei gogoniant. Peidiwch â chyfyngu eich hun i un categori chwaith - os ydych yn gymwys, gallwch gystadlu mewn cynifer o gategorïau ag yr hoffech! Po fwyaf o gategorïau y byddwch yn cymryd rhan ynddynt, y mwyaf o gyfle sydd gennych i ennill gwobr ariannol!

### Categorïau eleni yw:

- Yr ardd orau (rhoddir gwobr ar gyfer y safle 1af, yr 2il a'r 3ydd safle)
- Y Cynllun Byw'n Annibynnol Gorau
- Y defnydd gorau o le bach (gardd gynhwysyddion, basgedi etc.)
- Yr ardd ffordd o fyw orau
- Yr ardd fwytadwy orau
- Yr ardd blodau gwyllt orau
- Y garddwr newydd gorau
- Y garddwr ifanc gorau (i bobl 16 oed ac iau)
- Yr ardd eco orau (deunyddiau wedi'u hailgylchu, planhigion ecogyfeillgar etc.)
- Yr ardd a drawsnewidiwyd orau

### Sut i gystadlu

Mae'n hawdd iawn i gymryd rhan yn y gystadleuaeth. E-bostiwch eich llun(iau) i ✉ **Tai@abertawe.gov.uk** neu llenwch y ffurflen ar-lein ar ein gwefan 🖱 **www.abertawe.gov.uk/cystadleuaetharddioidenantiaid**

Dylech gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad, y categori neu'r categorïau rydych yn cymryd rhan ynddynt a'ch rhif ffôn.

Fel arall, gallwch bostio'ch llun i'r cyfeiriad canlynol: Cystadleuaeth Arddio i Denantiaid a Lesddeiliaid, Cyngor Abertawe, Gwasanaethau Tai, St Helen's Crescent, Neuadd y Ddinas, Abertawe SA1 4PE.

Os na allwch dynnu llun o'ch gardd, e-bostiwch ni neu rhowch wybod i'ch Swyddog Tai a byddwn yn trefnu i rywun ymweld â'ch gardd i dynnu llun ar eich rhan.

Y dyddiad cau ar gyfer y gystadleuaeth yw **dydd Gwener 29 Awst 2025**. Pob lwc!

### Amodau a Thelerau

- Mae'r gystadleuaeth hon yn agored i denantiaid a lesddeiliaid y cyngor yn Abertawe'n unig.
- Dylai pob ffotograff a dynnir fod yn un diweddar ac yn adlewyrchiad cywir o'ch gardd.
- Dyfernir y safle 1af, yr 2il a'r 3ydd safle i enillwyr categori'r ardd orau. Gall hyn gynnwys naill ai gardd flaen neu ardd gefn.
- Gall ceisiadau ar gyfer yr ardd fwytadwy fod mewn cynwysyddion neu fel rhan o ardd (dan do neu yn yr awyr agored)
- Mae'n rhaid i'r ardd ffordd o fyw ddangos ôl gofal da ond efallai na fydd yn cael ei hystyried yn ardd draddodiadol neu ffurfiol ag amrywiaeth fawr o flodau a phlanhigion. Mae angen i'r ardd wneud y defnydd gorau o'r lle sydd ar gael i fod yn addas ar gyfer ffordd o fyw'r teulu.
- Mae categori'r defnydd gorau o le bach yn cyfeirio at ardal na ellir ei hystyried yn ardd, e.e. lle bach y tu allan i eiddo.
- Does dim rhaid i chi fod yn denant newydd i gymryd rhan yng nghategori'r garddwr newydd gorau ond mae'n rhaid eich bod yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth am y tro cyntaf.
- Ar gyfer yr ardd a drawsnewidiwyd orau, hoffem weld sut roedd eich gardd yn edrych o'r blaen a beth rydych wedi'i wneud i'w thrawsnewid. Does dim rhaid iddi fod yn ardd hirsefydlog neu orffenedig - mae gennym ddiddordeb mewn gweld y gwaith rydych chi wedi'i wneud. Bydd angen i chi ddarparu lluniau 'cyn' ac 'ar ôl'.

- I gymryd rhan yng nghategori'r garddwr ifanc, rhaid i chi fod yn 16 oed neu'n iau.
- Gallwch anfon cynifer o luniau ag y mynnwch, ond caiff y gystadleuaeth ei barnu yn ôl eich sgiliau garddio, nid eich sgiliau tynnu llun.
- Dylai'r ffotograffau ddangos lluniau o'ch gardd yn unig ac ni ddylent ddangos gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch cyfeiriad neu ddangos pwy ydych chi neu aelodau o'ch teulu.
- Os na allwch gyflwyno llun eich hun, gallwch ofyn i berson arall wneud hynny ar eich rhan. Mae'n rhaid i'r person sy'n cyflwyno'r llun ddarparu manylion y person sy'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth.
- Nodwch yn glir y categori rydych yn cymryd rhan ynddo. Gallwch gymryd rhan mewn mwy nag un ohonynt os dymunwch.
- Ni allwn ddychwelyd unrhyw ffotograffau a dderbyniwn drwy'r post.
- Drwy gymryd rhan yn y gystadleuaeth ac anfon eich ffotograff atom, rydych yn rhoi eich caniatâd i ni ddefnyddio'r llun ar ein gwefan, ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol ac mewn cyhoeddiadau yn y dyfodol. Byddwn yn cadw'r llun am gyfnod o 2 flynedd ar ôl i'r gystadleuaeth ddod i ben.
- Caiff pob cynnig ei wirio a'i ddilysu pan fydd y gystadleuaeth yn cau.

# Mesuryddion Deallus




**Cenhedlaeth newydd o fesuryddion ynni yw mesuryddion deallus. Mae cyflenwyr yn eu gosod fel rhan o raglen y llywodraeth genedlaethol i ddisodli mesuryddion ynni hŷn. Mae hyn yn cynnwys mesuryddion rhagdaledig.**

Rhaid i bob cyflenwr ynni anelu at osod mesuryddion deallus ym mhob cartref. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am gynllun cyflwyno'r llywodraeth ar wefan Smart Energy GB. **www.smartenergygb.org/cy/**

Eich cyflenwr sy'n gyfrifol am osod unrhyw offer mesuryddion deallus. Mae hyn yn cynnwys:

- Mesurydd trydan a nwy deallus.
- Sgrîn yn y cartref. Mae hyn yn dweud wrthych chi am eich defnydd o ynni mewn punnoedd a cheiniogau.
- Hwb cyfathrebu. Gosodir hwn wrth ochr y mesurydd trydan. Mae'n anfon ac yn derbyn gwybodaeth dros rwydwaith diogel ar gyfer eich sgrîn yn y cartref ac yn ei hanfon at eich cyflenwr fel y gall gymryd mesuriadau o bell a'ch bilio'n gywir.

## Manteision mesuryddion deallus

- Gall eich sgrîn yn y cartref eich helpu i dracio'ch costau'n hawdd a deall pryd y gallech ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon.
- Ni fydd angen biliau amcangyfrifedig mwyach oherwydd y cysylltiad rhwng eich mesurydd a'r cyflenwr i rannu data.
- Gall rhai tariffau deallus fod yn rhatach. Gall rhai mesuryddion deallus weithio mewn modd rhagdaledig neu gredyd.

Os ydych yn gwsmer sy'n rhagdalu, mae manteision penodol i chi –

- Efallai y gall cyflenwyr ynni gynnig ffyrdd newydd a mwy hyblyg o ychwanegu arian. Felly, efallai na fydd yn rhaid i chi fynd i siop.
- Bydd eich sgrîn yn y cartref yn dangos eich balans credyd, felly ni fydd eich credyd yn dirwyn i ben yn ddiarwybod i chi.
- Gallwch osod eich mesurydd i ychwanegu credyd yn awtomatig i sicrhau na fyddwch heb bŵer os bydd eich credyd yn dirwyn i ben gyda'r hwyr neu pan fydd y siopau ar gau.
- Ni fydd angen i chi newid eich mesurydd os byddwch yn newid rhwng tariffau rhagdalu a chredyd (gan gynnwys tariffau debyd uniongyrchol).

I gael mesurydd deallus, cysylltwch â'ch cyflenwr ynni presennol a gofynnwch iddo ei osod. Bydd naill ai'n trefnu apwyntiad neu'n rhoi gwybod i chi pan fydd yn bwriadu cyflwyno mesuryddion deallus yn eich ardal. Mae'r broses osod fel arfer yn cymryd tua dwy awr.

Os nad ydych yn siŵr pwy yw eich cyflenwr, gall gwefan Smart Energy GB eich helpu gyda hyn. Gall gwefan Ofgem **www.ofgem.gov.uk/** hefyd ddarparu llawer mwy o wybodaeth ddefnyddiol a chyngor diduedd i chi ar fesuryddion deallus.

# Diweddariad Adfywio Tudno Place a Heol Emrys



**Mae ein cynlluniau i adfywio ystad Heol Emrys a Tudno Place yn dechrau datblygu. Arweiniodd digwyddiad ymgynghori cyhoeddus yn 2022 at ddatblygu uwchgynllun cysyniad ac mae'r cyngor a Powell Dobson Architects wrthi'n datblygu'r uwchgynllun ar hyn o bryd, gyda'r nod o gyflwyno cais cynllunio eleni.**

Bydd y cynllun yn cynnwys adnewyddu'r tu mewn a'r tu allan i bob eiddo cyngor ar yr ystad, gan gynnwys gosod ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd, gwell inswleiddiad i wneud cartrefi'n gynhesach ac yn fwy ynni effeithlon, a gwelliannau i gynllun yr ystad gan gynnwys tirlunio'r ardal a chreu ardal chwarae newydd fwy canolog. Gall newidiadau i eiddo hefyd gynnwys creu agoriadau newydd ar gyfer ffenestri neu ddrysau lle bo hynny'n ymarferol. Mae nifer o gartrefi bellach wedi derbyn ceginau ac ystafelloedd ymolchi newydd.

Bydd y broses cais cynllunio yn rhoi cyfle arall i breswylwyr gyflwyno sylwadau am y cynlluniau - byddwn yn rhoi gwybod i chi sut y gallwch fynegi barn am y cynigion hyn yn y misoedd nesaf.

Cynhaliwyd amrywiaeth o arolygon ar yr ystad dros yr wythnosau diwethaf i helpu i lywio'r cynlluniau, a bydd y gwaith hwn yn cynyddu dros y misoedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys arolygon y tu mewn i gartrefi unigol.

Os oes angen arolwg unigol, bydd Tîm Gwella Tai'r cyngor yn cysylltu â thenantiaid i drefnu apwyntiad.

Mae'r cynigion adfywio ar gyfer yr ystad yn rhai sylweddol ac mae cwmpas y gwaith yn golygu y bydd y prosiect yn cael ei rannu fesul cam dros nifer o flynyddoedd.

Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys ychwanegu eiddo newydd at yr ystad i gynyddu nifer y cartrefi cyngor yn ardal Pen-lan. Bydd y gwaith i adeiladu adeiladau newydd yn cael ei gwblhau yng nghamau diweddarach y cynllun, gan y bydd gwaith i adnewyddu'r cartrefi presennol yn cael blaenoriaeth.

Byddwn yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â phreswylwyr wrth i'r cynlluniau ddatblygu, ond gallwch gysylltu â'r Tîm Gwella Tai ar ☎ **01792 635117** neu e-bostio ✉ **HousingILT@abertawe.gov.uk** os oes gennych unrhyw ymholiadau. Gallwch hefyd fynd i'n gwefan yn: **www.abertawe.gov.uk/tudnoacemrys**









# Adrodd am dwyll a seiberdroseddu wrth Action Fraud

### Beth yw twyll?

Ystyr twyll yw pan fydd rhywun yn dweud celwydd neu'n eich twyllo er mwyn achosi niwed, fel arfer drwy ddwyn eich arian.

### Beth yw seiberdrosedd?

Dyma pryd y mae twyllwyr yn targedu cyfrifiaduron, tabledi neu ffonau neu'n defnyddio'r rhyngrwyd i'ch twyllo.

### Beth yw Action Fraud?

Action Fraud yw canolfan adrodd genedlaethol y DU ar gyfer twyll a seiberdroseddu.

### Dewis y gwasanaeth cywir ar gyfer eich sefyllfa:

Nid yw Action Fraud yn wasanaeth brys; mewn argyfwng dylech ffonio 999.

Os yw'r drosedd yn ymwneud â'ch cyfrif banc neu gerdyn credyd, cysylltwch â'ch darparwr yn y lle cyntaf bob tro.

Gellir ymdrin â throsedd wyneb yn wyneb lle mae rhywun lleol dan amheuaeth drwy ffonio'r heddlu lleol ar 101.

### Pryd i gysylltu ag Action Fraud:

Mae'n hawdd ac yn gyflym adrodd am achosion o dwyll a seiberdroseddu nad ydynt yn rhai brys wrth Action Fraud.

Gallwch hefyd roi gwybod i ni am alwad ffôn, llythyr, neges destun neu e-bost amheus, hyd yn oed os nad ydych wedi colli unrhyw arian.

**Action Fraud**
**www.actionfraud.police.uk**
(24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos)

**Canolfan Genedlaethol Adrodd am Dwyll a Seiberdroseddu ☎ 0300 123 2040**

# Sgwteri symudedd - arweiniad i denantiaid

Mae Cyngor Abertawe wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac mae'n cydnabod y gall sgwteri symudedd hyrwyddo annibyniaeth a chael effaith gadarnhaol ar fywydau drwy alluogi cynhwysiant cymdeithasol.

## Pa sgwteri symudedd y mae'r arweiniad hwn yn eu cwmpasu?

Mae'r arweiniad hwn yn berthnasol i gerbydau symudedd trydan o'r ddau gategori canlynol:

- Dosbarth 2 - I'w defnyddio ar balmentydd ac ar gyfer croesi ffyrdd, gyda chyflymder uchaf o 4 milltir yr awr.
- Dosbarth 3 - I'w defnyddio ar balmentydd a ffyrdd, gyda chyflymder uchaf o 8 milltir yr awr. (Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r cerbydau hyn gael eu cofrestru gyda'r DVLA er mwyn eu defnyddio ar y ffordd.)

Nid yw'r arweiniad hwn yn berthnasol i gadeiriau olwyn trydan.

## Oes angen i mi wneud cais am ganiatâd?

Mae tenantiaid y Gwasanaeth Byw'n Annibynnol yn byw mewn cynlluniau ag ardaloedd cymunedol mewnol ac allanol a rennir. Mae'n rhaid i Gyngor Abertawe sicrhau bod rheoliadau iechyd a diogelwch a thân yn cael eu cadw er diogelwch yr holl denantiaid.

Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n byw mewn mewn eiddo sydd dan reolaeth y Gwasanaethau Byw'n Annibynnol gael caniatâd i storio neu ddefnyddio sgwter symudedd.

Caiff ceisiadau eu hystyried yn seiliedig ar yr ymgeisydd unigol, yr eiddo ac amgylchiadau'r cynllun.

## Sut ydw i'n gwneud cais am ganiatâd i gael sgwter symudedd?

Gallwch ofyn i'ch Swyddog Byw'n Annibynnol am ffurflen gais a chytundeb Sgwteri Symudedd.  Mae'n rhaid i denantiaid wneud cais am ganiatâd cyn storio neu ddefnyddio sgwter symudedd.



Mae manylion llawn y broses ymgeisio wedi'u cynnwys yn y ffurflen gais a'r cytundeb.

# Diogelwch dŵr yn yr haf

**Mae modd atal damweiniau gan amlaf os oes gennych yr wybodaeth gywir a synnwyr cyffredin, a dyma'n hawgrymiadau ni ar gyfer aros yn ddiogel yn y dŵr yn ystod yr haf.**

## I fwynhau'r dŵr yn ddiogel a gwneud y penderfyniad cywir...

- **Ewch i mewn i'r dŵr yn araf ac yn ofalus**
  Meddyliwch yn ofalus am eich gallu i sblasio neu nofio mewn dŵr oer yn yr awyr agored. Credir bod 49% o'r bobl sy'n marw yn nofwyr. Ydych chi wir yn nofiwr da?
- **Arhoswch o fewn cyrraedd**
  Peidiwch â mynd yn rhy bell ac arhoswch o fewn dyfnder sefyll.
- **Sicrhewch fod rhywun yn eich goruchwylio bob amser**
  Mae dros 70% o ddamweiniau angheuol yn digwydd pan nad oes goruchwyliaeth broffesiynol. Chwiliwch am ardaloedd lle ceir gwarchodwyr bywydau a gwnewch yn siŵr bob amser fod rhywun ar gael i alw am gymorth.

## Mewn argyfwng...

- **Ffoniwch 999**
  Os ydych ar yr arfordir, ffoniwch 999 a gofynnwch am Wylwyr y Glannau. Peidiwch â mynd i mewn i'r dŵr i achub rhywun.
- **Os ydych mewn trafferthion, ARNOFIWCH a galwch am help**
  Os ydych yn syrthio i mewn neu'n mynd yn flinedig - arhoswch yn ddigyffro, arnofiwch ar eich cefn a galwch am help. Taflwch rywbeth sy'n arnofio at rywun sydd wedi syrthio i mewn.




**Mae'r haf yn amser bendigedig i fwynhau ein dyfrffyrdd hardd ond mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol bod tywydd cynhesach yn uniongyrchol gysylltiedig â chynnydd mewn digwyddiadau boddi angheuol.**

Afonydd a llynnoedd sy'n peri'r risg ystadegol fwyaf gan fod peryglon yn aml nad oes gan y person cyffredin y gallu i ddelio â nhw, ac mae diffyg goruchwyliaeth broffesiynol.



# Cymunedau am Waith a Mwy

**Mae Cymunedau am Waith a Mwy, rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn darparu cefnogaeth ac arweiniad cynhwysfawr, am ddim i unigolion di-waith 16+ oed sy'n chwilio am waith.**

Drwy sesiynau unigol pwrpasol gyda thîm o fentoriaid ymroddedig, byddwch yn derbyn arweiniad wedi'i deilwra i'ch helpu i ymdrin â'r farchnad swyddi. Caiff pob cyfranogwr ei baru â'i fentor ei hun, a fydd yn cwrdd â chi mewn lleoliad cyfleus, lleol. Yn ystod eich sesiynau, bydd eich mentor yn cymryd yr amser i ddeall eich anghenion a'ch heriau unigryw, gan weithio ar y cyd â chi i nodi'r camau nesaf clir yn eich taith gyflogaeth a goresgyn y rhwystrau y gallech eu hwynebu. P'un a oes angen help arnoch i feithrin hyder, gwella'ch set sgiliau neu ailwampio'ch CV, mae Cymunedau am Waith a Mwy yma i'ch cefnogi bob cam o'r ffordd!

Cymunedau am Waith Communities for Work +



## YN CHWILIO AM WAITH?

**Bydd Cymunedau am Waith a Mwy yn darparu mentora dwys a chefnogaeth i chi, gan eich helpu i sicrhau cyflogaeth gynaliadwy.**

## Eich Hybiau Cymunedol Lleol

**Hwb Cymunedau am Waith a Mwy Bôn-y-maen**
55-57 Caernarvon Way,
Bôn-y-maen SA1 7HJ
Dydd Llun i ddydd Mercher
9.30am - 4.30pm

**Yr ARC**
45 Broughton Avenue,
Portmead SA5 5JS
Dydd Llun i ddydd Gwener
9.30am - 4.30pm

**Canolfan y Ffenics**
Powys Avenue,
Townhill SA1 6PH
Dydd Llun i ddydd Gwener
9.30am - 4.30pm

**Canolfan Gymunedol Dyfaty**
Chapel Street, SA1 1NB
Dydd Mawrth
9.30am - 1pm

**Capel Seion Newydd**
Tirpenry Street,
Treforys SA6 8DS
Dydd Iau
9.30am - 1pm

**Hwb Cyfleoedd**
Canolfan Siopa'r Cwadrant
Ger yr Orsaf Fysus
Dydd Llun i ddydd Gwener
10am – 3pm

**@Communities for Work+ Swansea / @SwanseaWorking**

**☎ 01792 578632 swanseaworking@abertawe.gov.uk**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru Funded by Welsh Government · Gweithio Abertawe Swansea Working · Cyngor Abertawe Swansea Council

# Fy Nhai - Eich Ateb Ar-lein

## Ar gael 24/7 ac yn barod pan fyddwch chi'n barod.

**Mae rheoli eich tŷ cyngor yn haws nag erioed.**

Mae'r porth ar-lein yn darparu mynediad cyflym a hawdd at yr holl wybodaeth am eich cartref.

**Cofrestrwch / mewngofnodwch yma: tai.abertawe.gov.uk**

# Lleisiau Tenantiaid



## Cyflwyniad

Fy enw i yw Alison Winter a fi yw eich Swyddog Cyfranogiad ac Ymgysylltu. Dyma fy niweddariad rheolaidd ar gyfranogiad tenantiaid yn Abertawe, lle'r wyf yn rhoi gwybodaeth i chi am yr holl gyfleoedd i gymryd rhan.

## Facebook

Mae gan Dai Cyngor Abertawe 2 grŵp Facebook, y gall unrhyw denant neu lesddeiliad y cyngor ymuno â nhw. Mae Tai Cyngor Abertawe yn postio gwybodaeth ddefnyddiol, yn dweud wrthych am ddiweddariadau a newidiadau i'r gwasanaeth tai ac wrth gwrs yn ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych. Mae Grŵp Cyfranogiad Tenantiaid Abertawe yn grŵp i denantiaid a lesddeiliaid sydd am gymryd rhan drwy ddweud eu dweud ar sut rydym yn darparu'r gwasanaethau rydym yn eu darparu a sut y gellir eu gwella. Rydym hefyd yn postio gwybodaeth ddefnyddiol, manylion digwyddiadau ac arolygon sydyn. I ymuno â'r grwpiau, chwiliwch am 'Tai Cyngor Abertawe' a 'Grŵp Cyfranogiad Tenantiaid Abertawe' ar Facebook; bydd angen i chi ateb cwestiynau aelodaeth er mwyn i chi gael eich cymeradwyo.

## Digwyddiad galw heibio i denantiaid, Neuadd Brangwyn

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi ein **digwyddiad galw heibio i denantiaid** cyntaf ar **24 Medi** yn **Neuadd Brangwyn**. Mae'r digwyddiad ar gyfer tenantiaid a lesddeiliaid a bydd cyfleoedd i siarad â swyddogion o'r gwasanaeth tai, yn ogystal ag asiantaethau lleol eraill ac elusennau. Dyma'r tro cyntaf i ddigwyddiad fel hwn gael ei gynnal yn Abertawe ac rydym yn gobeithio ei gynnal yn flynyddol. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn y dyfodol agos. Os oes gennych unrhyw syniadau neu awgrymiadau ar gyfer y digwyddiad hwn neu os hoffech wirfoddoli ar y diwrnod, cysylltwch â ni.

## Mynd o le i le

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, rwyf wedi bod yn mynd i sesiynau galw heibio, lleoedd llesol a chlybiau cymdeithasol yn ein stadau cyngor. Rwyf wedi bod yn siarad â phreswylwyr am faterion sy'n effeithio arnynt a ble y gallant gael gafael ar gymorth. Yn fwy diweddar, rwyf wedi bod i'r Cwtsh Cydweithio yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, sy'n fan ymgysylltu â'r gymuned, ac rwyf hefyd wedi bod i'r canolfannau clyd yn West Cross, Waunarlwydd a Phen-lan.

Os oes gennych unrhyw glybiau cymdeithasol neu sesiynau galw heibio yr hoffech i mi ddod iddynt, rhowch wybod i mi a gwnaf fy ngorau i fod yno.

## Porth 'Fy Nhai'

Mae'r porth 'Fy Nhai' yn eich galluogi i greu cyfrif tai personol gan ddefnyddio ffôn clyfar, tabled neu gyfrifiadur personol y gallwch ei ddefnyddio ar amser sy'n gyfleus i chi. Mae'n darparu mynediad hawdd er mwyn i chi weld balans eich rhent a'ch trafodion, talu'ch rhent, cadw cofnod o unrhyw atgyweiriadau yr adroddwyd amdanynt, newid eich manylion personol ac anfon negeseuon atom neu adrodd am faterion rheoli tai.

## Cyfle i Ddweud eich Dweud

Gallwch gyfranogi cymaint neu gyn lleied ag yr hoffech, nid oes rhaid i chi ddod i gyfarfodydd a gallwch fynegi'ch barn o gysur eich cartref. Os hoffech wybod mwy am unrhyw un o'r grwpiau, y porth, neu'r grŵp Facebook, gallwch fy ffonio ar ☎ **01792 635043** neu ☎ **07775221453**, cysylltu drwy Messenger neu e-bostio ✉ **alison.winter@abertawe.gov.uk**.

# Dulliau talu rhent

## Debyd Uniongyrchol

Mae ffurflenni ar gael ar-lein neu gallwch ofyn i'ch Swyddog Rhent amdanynt drwy ffonio ☎ **601720 / 534094** eu e-bostio ✉ **rentsteam@abertawe.gov.uk**

## Swyddfa'r Post

**Bydd angen cerdyn talu electronig arnoch**, gofynnwch i'ch Swyddog Rhent, neu ffoniwch ni ar ☎ **601720 / 534094**. Ni fydd taliadau a wneir ar ddydd Iau neu ddydd Gwener yn dangos tan yr wythnos ganlynol.

## Payzone

Gallwch ddefnyddio cerdyn electronig i dalu mewn unrhyw siop sy'n dangos logo payzone. Am restr o'r siopau hyn, ewch i 🖱 **www.payzone.co.uk**

## Dros y rhyngrwyd

Ewch i wefan y cyngor yn 🖱 **www.abertawe.gov.uk** cliciwch ar **"Gwnewch e ar-lein"** a **"Talu"**. Os cewch unrhyw anawsterau, ffoniwch ☎ **601720 / 534094** am gymorth.

## Drwy gysylltu â'ch Swyddog Rhent

Gallwch dalu drwy ddefnyddio cerdyn debyd, Switch, Solo, Maestro neu gredyd drwy ffonio ☎ **601720 / 534094** neu eich Swyddfa Dai Ardal leol yn ystod oriau swyddfa.

## Dros y ffôn

Os ydych yn gwybod eich cyfeirnod rhent, gallwch ffonio ein gwasanaeth awtomataidd **Cymraeg** ☎ **0300 456 2775 / Saesneg** ☎ **0300 456 2765** ar unrhyw adeg. (Os nad ydych yn gwybod eich cyfeirnod rhent, ffoniwch ☎ **601720 / 534094**)

## Credyd Cynhwysol

Os ydych chi'n derbyn **Credyd Cynhwysol**, caiff eich **costau tai** eu talu i chi'n uniongyrchol gan yr **Adran Gwaith a Phensiynau**. Ffoniwch yr **Adran Gwaith a Phensiynau** ar ☎ **0345 600 0723** os nad ydych wedi derbyn eich costau tai.

## Fy Nhai

Porth tai ar-lein i dalu rhent a gwirio balansau a thrafodion 🖱 **www.abertawe.gov.uk/tai**

# Newyddion Byw'n Annibynnol



## Partïon Nadolig Byw'n Annibynnol

Yn ôl ym mis Rhagfyr roedd y Cynlluniau Byw'n Annibynnol wedi mwynhau eu partïon Nadolig! Cynhaliwyd y partïon dros ddeuddydd yn y New Lodge yng Ngorseinon. Cafodd y tenantiaid ginio Nadolig dau gwrs, gêm o bingo, raffl gyda rhoddion gwych ac adloniant gan ddifyrrwr, gyda llawer o ddawnsio.

Aeth Swyddogion Byw'n Annibynnol i'r partïon hefyd i gymryd rhan yn y dathliadau - gan wisgo i fyny fel sêr roc a dawnsio drwy'r prynhawn gyda help y difyrrwr, a wnaeth ganu ac annog tenantiaid i ddawnsio ac ymuno yn yr hwyl, fel y gallwch weld yn y lluniau. Cafodd pawb amser gwych.



## Partïon y Pasg a choffáu Diwrnod VE

Yn fwy diweddar, mwynhaodd y preswylwyr nifer o bartïon Pasg a phartïon i ddathlu 80 o flynyddoedd ers Diwrnod VE. Ymhlith y cynlluniau a gynhaliodd ddigwyddiadau roedd Penrhiw Court, Llys Elba, Laugharne Court, Hafan Glyd a Heol y Gors. Roedd Betty, preswylydd hynaf Penrhiw Court sy'n 97 oed, wedi dod â medalau ei diweddar ŵr i'r digwyddiad. Roedd e'n aelod o Gorfflu Meddygol Brenhinol y Fyddin a dyfarnwyd 6 medal iddo, gan gynnwys Seren Affrica. Dyma rai lluniau o'r digwyddiadau.



# Eisiau symud cartref? Gall HomeSwapper eich helpu!

**HomeSwapper** yw gwasanaeth cyfnewid cartref mwyaf y DU ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol a gall cyfnewid eich cartref â thenant arall fod yn gyflymach nag aros am drosglwyddiad.

Mae Cyngor Abertawe'n aelod o **HomeSwapper** a gall tenantiaid Cyngor Abertawe gofrestru ar gyfer y gwasanaeth a'i ddefnyddio am ddim.

Gallwch gofrestru neu fewngofnodi i'ch cyfrif **www.homeswapper.co.uk** neu gallwch ddefnyddio **ap** am ddim **HomeSwapper** ar eich ffôn neu'ch tabled - lawrlwythwch yr ap o siop apiau Apple neu Google Play i'ch ffôn neu'ch tabled.

Mae rhagor o gyngor ac erthyglau manwl am sut i wneud y mwyaf o **HomeSwapper** ar gael yn **www.homeswapper.me/homeswapper-blog/** neu cysylltwch â'ch Swyddfa Dai Ardal Leol.

Gower Seal Group | Partneriaeth Natur Lleol Abertawe / Swansea Local Nature Partnership | Cefnogir gan / Supported by Cyngor Abertawe Swansea Council | Seal Research Trust www.cornwallsealgroup.co.uk



Taflwch ddisgiau hedfan solet yn unig ger y dŵr OS GWELWCH YN DDA, A gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd â'r ddisg adref gyda chi!

Mae cylchoedd hedegog yn hwyl ond gallant fod yn **boenus ac yn angheuol i forloi.** Mae morloi yn chwilfrydig ond unwaith y mae cylch o gwmpas eu gwddf nid ydynt yn gallu ei dynnu i ffwrdd. Os nad ydych yn mynd â'ch cylch hedegog adref gyda chi bydd yn cyrraedd y cefnfor yn y pen draw fel **llygredd plastig!**

Ar gyfer morloi sy'n sâl, wedi'u hanafu neu wedi mynd ynghlwm mewn rhywbeth, ffoniwch **British Divers Marine Life Rescue: 01825 765546.**

# ABERTAWE

## Daliwch ati, CADWCH YR AILGYLCHU MAS!

**Cofiwch na chaniateir ailgylchu yn y sachau du**



@AilgylchuTawe

Ailgylchu Dros Abertawe